UK Longitudinal Linkage Collaboration

Deall Data Astiudiaethau Poblogaeth Hydredol a'r Gyfraith

# Deddf yr Economi Ddigidol (DEDd) 2017

Am ragor o wybodaeth
**ukllc.ac.uk/lps-data-and-the-law**

Dywed Adran 64 y gyfraith hon y gellir rhannu data dadadnabyddedig1 a gynhyrchwyd gan ddarparwyr ymchwil y llywodraeth, ac eithrio data GIG, fel rhan o'u gweithrediadau beunyddiol, er budd ymchwil cyhoeddus. Sicrha, hefyd fod yna breifatrwydd, eglurdeb a chysondeb yn y modd y rhennir y data.

## "Dwi â rhan mewn astudiaeth boblogaeth hydredol: sut mae Deddf yr Economi Ddigidol yn effeithio arnaf fi?"

"**Nid yw pob** astudiaeth boblogaeth hydredol yn **cysylltu â data gweinyddol,** felly nid yw'n rhywbeth sy'n digwydd yn otomatig."



"Gellir cysylltu fy nata astudiaeth boblogaeth hydredol â **data gweinyddol** dadadnabyddedig. Addysg, cyflogaeth, treth, buddion a chofnodion cyfiawnder troseddol, er enghraifft."



"Gallaf **wrthwynebu** cysylltu fy nata astudiaeth â data gweinyddol neu **wrthod caniatâd2.**"



## "Beth mae Deddf yr Economi Ddigidol yn ei olygu i'r astudiaeth boblogaeth hydredol yr ydw i'n rhan ohoni?"

Gallai eich astudiaeth brosesu a chysylltu data astudiaeth â data gweinyddol. Gall darparwyr gwasanaethau'r Llywodraeth rannu data ar gyfer ymchwil gyhyd ag y bo'r data wedi'i ddadadnabod a'i gadw mewn amgylchedd cyfrifiadurol hynod ddiogel o'r enw Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy.

### Buddion cydgysylltu data gweinyddol

**Gwella polisïau adrannol a chyflawni gwasanaethau**

**Adnabod sy'n fwy o i**

**Galluogi ymchwil mwy cynhwysol**

1 Golyga data dadadnabyddedig fod gwybodaeth bersonol fel enw, dyddiad geni a chyfeiriad unigolyn wedi'i thynnu allan a'i disodli gan rif neu god

2 Gallwch gysylltu â'ch tîm astudiaeth boblogaeth hydredol i ofyn am eithrio neu wrthod â chaniatáu cysylltu eich data â data gweinyddol.

Gwybodaeth gywir ar adeg ei chyhoeddi (f1, Gorffennaf 2024).
Os dymunwch holi am sut mae eich data yn gwneud gwahaniaeth ar gyfer ymchwil, cysylltwch â'ch tîm astudiaeth yn uniongyrchol, os gwelwch yn dda.

Arweinir UK LLC gan
University of Bristol
The University of Edinburgh

Ariennir UK LLC gan
UK Research and Innovation
ESRC and MRC

Ariennir y gyfres inffograffig gan
UK Health Data Research Alliance